

GWYBODAETH I WEITHWYR ALLWEDDOL:

Profion Gwrthgyrff COVID-19

Peidiwch mynd am brawf os ydych yn: hunanynysu oherwydd eich bod yngyswllt i achos cadarnhaol o Covid-19; os oes gennych symptomau o Covid-19 ac yn aros am brawf; neu os ydych wedi derbyn cadarnhad fod gyda chi COVID-19 ac yn hunanynysu

Beth yw profion Gwrthgyrff COVID-19?

Y clefyd sy'n cael ei achosi gan y coronafeirws newydd SARS-CoV-2 yw COVID-19.

Mae profion gwrthgyrff COVID-19 yn cael eu defnyddio er mwyn cael gwybod a yw unigolyn wedi cael ei heintio gan y coronafeirws newydd.

Pam ydw i'n cael cynnig prawf?

Rydym yn cynnig y prawf gwrthgyrff i weld a ydych wedi cael eich heintio gyda COVID-19 ac i wella ein dealltwriaeth o ledaeniad yr haint yng Nghymru.

Beth mae canlyniad positif yn ei olygu?

Os ydych chi wedi dod i gysylltiad â COVID-19, efallai eich bod chi wedi datblygu gwrthgyrff. Os byddwch chi'n cael canlyniad positif i'r prawf, mae'n debygol eich bod chi wedi cael coronafeirws yn y gorffennol.

Mae'n bwysig cofio nad yw cael prawf positif (sy'n dod o hyd i wrthgyrff) yn golygu o reidrwydd eich bod chi wedi cael eich amddiffyn rhag dal yr haint unwaith yn rhagor ac mae'n bosibl y gallech chi gael eich heintio gan COVID-19 eto.

Beth mae canlyniad negatif yn ei olygu?

Gall gymryd mwy na phythefnos i chi ddatblygu gwrthgyrff ar ôl dod i gysylltiad â COVID-19. Felly, gallai canlyniad negatif i'r prawf naill ai olygu nad ydych chi wedi cael eich heintio, neu eich bod chi yn y cyfnod hwnnw cyn i'r gwrthgyrff ddatblygu.

Gallai canlyniad negatif hefyd olygu eich bod chi wedi cael coronafeirws ond nad oes gennych unrhyw wrthgyrff y gellir eu canfod.

Pam mae rhaid imi lofnodi ymwadiad cyn i'r prawf gael ei gynnal?

Bydd disgwyl ichi lofnodi ymwadiad cyn ichi gael y prawf gwaed. Bydd hyn yn sicrhau eich bod chi'n deall beth fydd canlyniadau'r prawf yn ei olygu. Os na fyddwch

chi, ar ôl trafod â'r gweithiwr gofal iechyd, yn dymuno cael y prawf yna gallwch chi wrthod.

I ble y bydd y canlyniadau yn cael eu hanfon?

Bydd eich canlyniadau naill ai'n cael eu rhoi ichi pan fydd y prawf yn cael ei gynnal neu'n cael eu hanfon atoch chi drwy wasanaeth neges destun.

Bydd yr holl ganlyniadau hefyd yn cael eu cynnwys yn eich cofnodion meddygol.

Beth bynnag fydd canlyniad y prawf gwrthgyrff, os byddwch yn datblygu symptomau SARS COVID-19 ar unrhyw adeg (gwres, peswch, newid yn eich synnwyr blasu ac arogl), rhaid ichi roi gwybod i'ch rheolwr llinell. Bydd rhaid ichi hefyd gael y prawf swab a hunanynysu nes y daw'r canlyniadau. Rhaid ichi barhau i hunanynysu o'r adeg pan fydd y symptomau'n dechrau am saith niwrnod os bydd canlyniad eich prawf swab yn bositif.